

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun 13 Medi 2021 am 7:00pm drwy Zoom.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Stephen Beach, Gavin Harris, Rachel Lewington, Heather Williams, Christine Ellis a Mike van der Eijk

38. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyng Jim Bryan

39. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cyng Gavin Harris fuddiant fel perchennog busnes lletygarwch.

40. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021 a'r cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.*

41. MATERION YN CODI

Materion yn codi o gofnodion Pwyllgor Amwynderau 5 Gorffennaf 2021.

Rhoddodd y Cyng Menna Jones y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol i'r aelodau:

- Byddai manylion yr ymgyrch ymwybyddiaeth o sbwriel sy'n cynnwys yr ysgolion cynradd lleol, dan arweiniad y Cynghorwyr Jones a Roberts yn cael eu cadarnhau'n fuan.
- Roedd y Cynghorwyr Jones, Williams ac Ellis wedi beirniadu arddangosfeydd blodau busnesau a mangreoedd trwyddedig y dref. Yr enillwyr teilwng oedd A Touch of Class ar Stryd Mwrog a Gwesty'r Castell – Wetherspoon.

Dywedodd y Cyng Anne Roberts y byddai'n cysylltu â'r ATC ynghylch defnydd y cyhoedd o'r ardd heddwach.

Dywedodd y Cyng Gavin Harris fod y polyn y gellir ei dynnu i lawr y tu ôl i'r Hen Lys wedi cael ei osod.

Materion yn codi o gofnodion pwyllgor eithriadol y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021.

Dywedodd y Cyng Menna Jones fod llythyr ar y cyd wedi cael ei anfon at Graham Boase, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, yn dilyn y cyfarfod yn amlinellu pryderon am gyflwr y pafin ar yr A525 rhwng Rhuthun a Llanfair Dyffryn Clwyd. O ganlyniad, trefnwyd ymweliad â'r safle ar gyfer 24 Medi rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir, Cyngor Tref Rhuthun a Chyngor Cymuned Llanfair DC.

42. Y PRIF FFYRDD MYNEDIAD I RHUTHUN

Yn dilyn y cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021, lle'r oedd Cynghorwyr Sir Lleol yn bresennol, a phan drafodwyd cyflwr gwael y prif ffyrdd mynediad i Rhuthun, roedd yn amlwg bod rhywfaint o waith wedi digwydd. Roedd y cloddiau a'r tyfiant ar hyd rhannau o Ffordd Corwen a Ffordd yr Wyddgrug wedi cael eu tacluso, ond roedd cyflwr Ffordd Dinbych yn parhau i beri pryder. Mynegodd yr aelodau farn bod rhagor o welliannau i'w gwneud o hyd i'r prif ffyrdd mynediad i'r dref er mwyn gwella'r croeso i digolion ac ymwelwyr, ac i helpu i roi argraff gyntaf dda o'r dref. Er y cydnabuwyd bod rhai cyfyngiadau oherwydd y tymor nythu, dylid rheoli mieri a thalon poethion yn well wrth ochr y prif ffyrdd mynediad. Rhannwyd y sylwadau cadarnhaol a gafwyd gan ymwelwyr am arddangosfeydd blodau'r dref. Awgrymwyd, o ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n treulio'u gwyliau yn y wlad hon a'r tymor gwyliau a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod gwyliau arferol, y dylid ystyried ymestyn yr arddangosfeydd blodau er budd trigolion ac ymwelwyr â'r dref.

PENDERFYNWYD: *Anfon llythyr at Graham Boase yn mynegi'r angen i wella'r prif ffyrdd mynediad i Rhuthun.*

43. Y GOFEB RYFEL

Trafododd y Pwyllgor adroddiad diweddarau ar Brosiect Cofeb Ryfel Rhuthun a'r camau nesaf arfaethedig gan Weithgor y Gofeb Ryfel. Cadarnhawyd fod Cyngor Tref Rhuthun bellach wedi yswirio'r Gofeb Ryfel. Dywedwyd na fu'r cais am grant i Gronfa Fferm Wynt Clocaenog i gefnogi Cam 1 y prosiect (i gomisiynu cynlluniau pensaer a brasluniau o'r Gofeb Ryfel, rhestr o'r gwaith a pharatoi dogfennau tendr ar gyfer rhan 1 y prosiect) yn llwyddiannus gan nad oedd y Gofeb Ryfel wedi'i chofrestru i Gyngor Tref Rhuthun gyda'r Gofrestrfa Tir.

Cynigiwyd bod y Pwyllgor Amwynderau yn argymhell bod y Cyngor Tref yn neilltuo cyllid o'r gyllideb bresennol i gefnogi Cam 1 prosiect y Gofeb Ryfel gan gynnwys sicrhau bod tir y safle'n cael ei gofrestru. Ar ôl i'r sefyllfa o ran cofrestru'r tir gael ei chadarnhau, bydd y posibilrwydd o sicrhau cyllid grant yn fwy tebygol.

PENDERFYNWYD: *argymhell bod y Cyngor Tref yn neilltuo cyllid o'r gyllideb bresennol i gefnogi Cam 1 prosiect y Gofeb Ryfel gan gynnwys sicrhau bod tir y safle'n cael ei gofrestru.*

44. CYLLID GRANT LLYWODRAETH CYMRU I GYNGHORAU TREF YMATEB I COVID-19

Rhoddodd y Cyng Gavin Harris y wybodaeth ddiweddaraf am eitemau a gafodd gefnogaeth gan y cyllid grant:

- Prynwyd tair mainc, ac fe'u gosodwyd yn eu lle
- Prynwyd dwy fainc arall ac roeddent yn aros i gael eu gosod ar ôl cael caniatâd priodol gan y Cyngor Sir
- Byddai mynegbyst yn cael eu gosod rhwng 27 a 29 Medi 2021
- Roedd ffynnon ddŵr wedi cyrraedd a byddai'n cael ei gosod y tu ôl i'r Hen Lys yn ystod 2022.

PENDERFYNWYD: *Nododd yr Aelodau y wybodaeth ddiweddaraf a diolchwyd i'r Cyng Gavin Harris am ei waith.*

45. CYFLE I GAEL CYLLID AR GYFER SEILWAITH DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL

Trafododd y Pwyllgor y cais drafft am y Grant Seilwaith Digwyddiadau Cymunedol. Roedd y cais am gyflenwad trydan mwy pwerus a dibynadwy i ddau leoliad ar sgŵar y dref ar gyfer digwyddiadau cymunedol, sef yr Hen Lys a Thŵr Cloc Rhuthun.

PENDERFYNWYD: *Bod y cais drafft yn cael ei argymhell i'r Cyngor Tref ei gymeradwyo, a'i anfon ymlaen i Gyngor Sir Ddinbych.*

46. MAN GOLLWNG TEITHWYR ODDI AR FYSIAU A CHEFN YR HEN LYS

Yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod mis Mehefin 2021 y Cyngor Tref, roedd y Cyng Gavin Harris wedi dechrau ymchwilio i gynllun ar gyfer man gollwng teithwyr posibl y tu allan i'r Hen Lys a chyfleoedd i wella tir y cyhoedd y tu ôl i'r adeilad. Trafododd yr aelodau adroddiad manwl a oedd yn amlinellu'r problemau presennol yn ymwneud â'r ardal y tu ôl i'r Hen Lys gan gynnwys parcio ar y stryd, mannau cul a chyfyng, llwybrau tarw a llwybrau y mae'r satnav yn eu hawgrymu, ynghyd ag opsiynau cychwynnol posibl ar gyfer cynlluniau eraill a gwella'r ardal yn gyffredinol. Cydnabuwyd y byddai angen i weithwyr proffesiynol cymwys ddatblygu unrhyw opsiynau ymhellach. Er y gellid mabwysiadu'r cynlluniau o bosibl mewn cynllun a chais mwy i Gronfa Codi'r Gwastad, gellid dechrau gweithredu heb ystyried cynllun y Gronfa Codi'r Gwastad.

PENDERFYNWYD: *Croesawu'r adroddiad a'i drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.*

47. MANNAU BWYTA Y TU ALLAN AR SGŴAR SANT PEDR

Rhannodd yr aelodau amrywiol safbwyntiau ar y mannau bwyta y tu allan a osodwyd ar Sgŵar Sant Pedr yn ddiweddar; mater a ddenodd gryn sylw gan y cyhoedd.

PENDERFYNWYD: *anfon llythyr at y Cynghorwyr Sir lleol.*

48. PARCIO AR YSTÂD HAULFRYN

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf oherwydd diffyg amser.

PENDERFYNWYD: trafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau.

49. COEDEN NADOLIG A GOLEUADAU RHUTHUN

Rhoddodd Clerc y Dref wybod i'r aelodau bod cwmni Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata wedi cysylltu â'r Cyngor Tref, ar ran busnes yn y dref, gyda chynnig o nawdd posibl ar gyfer y Goeden Nadolig a'r goleuadau arni. Roedd rhagor o wybodaeth i ddilyn. Yn y cyfamser, byddai Clerc y Dref yn parhau i fynd ati i sicrhau dyfynbrisiau ar gyfer Coeden Nadolig, goleuadau a gweithgareddau ategol.

PENDERFYNWYD: nodi'r posibilrwydd o nawdd ar gyfer y Goeden Nadolig a'r goleuadau a chytunwyd i Glerc y Dref fynd ar drywydd y cyfle hwn ond i chwilio am ddyfynbrisiau a chymryd y camau angenrheidiol ar gyfer y Nadolig ar yr un pryd.

50. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: mai nos Lun 4 Hydref 2021 y cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.00 pm.

Ymunodd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu â'r cyfarfod i drafod yr eitem nesaf.

51. CAE DDOL – GWAITH ARFAETHEDIG AR YR ARGLAWDD

Cafodd y Pwyllgor Amwynderau a'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu drafodaeth ar y cyd am waith arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr arglawdd yng Nghae Ddol. Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o frasluniau o'r gwaith arfaethedig ac fe'u dosbarthwyd cyn y cyfarfod. Amlinellodd y Cyng Heather Williams mai'r cynnig oedd i wneud y bwnd yn uwch ac yn lletach. Er bod yr aelodau'n cydnabod y manylion yn y brasluniau a gafwyd, ni chyflwynwyd effaith weledol y gwaith arfaethedig. Holodd yr aelodau hefyd am y gwaith draenio a ffensio. Wrth gydnabod yr angen i ddatrys y broblem, gofynnodd yr Aelodau am gyfarfod brys gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod manylion y cynllun.

PENDERFYNWYD: trefnu cyfarfod rhwng Cyngor Tref Rhuthun a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried manylion y gwaith arfaethedig ar yr arglawdd yng Nghae Ddol.